Duw yw fy ngoleuni (Salm 27)

Geiriau: Cass Meurig
Tôn: Beth yw'r haf i mi (tradd)



Duw yw fy ngoleuni;
Yr Arglwydd yw f'achubwr cryf.
Duw yw caer fy mywyd,
Does neb yn gallu 'nychryn i.
Ceisiais un peth gan fy Nuw,
Yn ei dŷ gad imi fyw,
I syllu ar ei harddwch,
A'i geisio yn ei deml bob dydd.

Duw fydd yn fy nghadw'n
Ei gysgod pan ddaw dyddiau gwael;
A'm cuddio yn ei babell,
A'm codi fry ar gadarn graig.
Codaf fi fy mhen yn awr,
Uwch gelynion ar bob llaw,
Canaf a chanmolaf
Fy Arglwydd mewn gorfoledd hael.

3. Gwranda, Dduw, pan alwaf,
Drugarog Un, o ateb fi.
'Ceisia'i wyneb Ef,' meddai
'Nghalon fach amdanat ti.
Ceisiaf di, o Arglwydd mawr,
Paid â chefnu arnaf nawr,
Ti fu'n gymorth imi,
'Ngwaredwr; paid â'm gadael i.

©